Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Iaith

DYDDIAD: 5 Rhagfyr 2022

LLEOLIAD: Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion a Hybrid

TEITL: Cyngor Sir Ceredigion yn Hybu Gwasanaethau Cymraeg
1. Trefniadau Dathlu Diwrnod Shwmae
2. Cyngor Sir Ceredigion yn cymryd rhan yn niwrnod Hawliau Comisiynydd y Gymraeg

PWRPAS YR ADRODDIAD: Rhoi gwybod i Aelodau Pwyllgor Iaith ynghylch
1. Sut bu'r Cyngor yn dathlu Diwrnod Shwmae 2022
2. Cyngor Sir Ceredigion yn cymryd rhan yn niwrnod Hawliau Comisiynydd y Gymraeg

CEFNDIR:

1. Trefniadau Dathlu Diwrnod Shwmae: Hydref 15 2022

Mae Diwrnod Shwmae yn ddiwrnod arbennig sydd wedi'i glustnodi ar gyfer hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Yn unol â threfn Safonau'r Gymraeg, mae gan Gyngor Sir Ceredigion ddyletswydd statudol i hybu a hwyluso'r Gymraeg ar draws y Sir.

Mae Diwrnod Shwmae yn rhoi cyfle i ddangos bod yr iaith yn perthyn i bawb, yn ddysgwyr, siaradwyr rhugl neu'r rheiny sydd ychydig yn swil o'u Cymraeg. Eleni, fe wnaeth Cyngor Sir Ceredigion ddefnyddio'r diwrnod i ddathlu llwyddiannau ein staff sydd wedi mynd ati i ddysgu'r iaith neu gynyddu eu medrusrwydd o'r Gymraeg

Astudiaeth Achos: Cyngor Sir Ceredigion yn dathlu Dysgwraig y flwyddyn ar ddiwrnod Shwmae 2022

Tiwtor Sgiliau Hanfodol yw Melisa Elek ac mae'n gweithio i Hyfforddiant Ceredigion Training (HTC). Mae wedi bod yn astudio Cymraeg ar raglen Cymraeg Gwaith y Cyngor ers tair blynedd. Yn goron ar ei hymroddiad i'w hastudiaethau, llwyddodd Melisa yn ei harholiad Uwch yn haf 2022, gan ddangos ei bod bellach wir yn un o siaradwyr newydd y Gymraeg yng Ngheredigion.

Yn wreiddiol o Ganada a'i theulu'n hanu o Groatia, mae Melisa yn ddinesydd byd. Bu'n byw mewn sawl lle ar draws y byd cyn dod i Geredigion. Ymgartrefodd yma gan y teimlai bod y sir yn lle hyfryd i fagu teulu. Daeth yma'n benderfynol o ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Erbyn hyn, defnyddia'r Gymraeg yn rheolaidd yn ei bywyd personol a phroffesiynol. Siarada Gymraeg yn llawen â chymdogion a chyfeillion. Yn y gwaith, defnyddia'r Gymraeg yn gyson gyda'i chyd-weithwyr, ac â'r myfyrwyr yn ei dosbarthiadau.

Yn y Llun: Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Dysgwr y Flwyddyn Cyngor Sir Ceredigion Melisa Elek, a'r Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith Huw Owen

Wrth dderbyn gwobr Dysgwr y Flwyddyn Cynllun Cymraeg Gwaith Ceredigion, dywedodd Melisa Elek: "Rhowch gynnig arni, a pheidiwch â rhoi'r gorau iddi! Mae'n sicr werth yr ymdrech, ac mae dysgu Cymraeg yn bendant yn cyfoethogi'r profiad o fyw a gweithio yng Ngheredigion ac yng Nghymru."

Trefnir rhaglen Cymraeg Gwaith Cyngor Ceredigion ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r cynllun yn darparu hyfforddiant i staff o bob cwr o'r Cyngor ar bob lefel o ddysgu Cymraeg. Yn ogystal mae'r rhaglen yn darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol i'r staff, fel Clwb Cinio a digwyddiadau diwylliannol, er mwyn rhoi profiad cyflawn iddynt o fyd y Gymraeg yng Ngheredigion.

Yn ystod y seremoni wobrwyo, dywedodd y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet a Chadeirydd Pwyllgor Iaith y Cyngor: "Ond yw e'n bleser cael cydnabod ymdrech a llwyddiant Melisa. Wrth ei llongyfarch hi a rhannu'r newyddion da y mae hefyd yn gyfle i ni fel sir gyfan ymfalchïo ein bod yn denu ac yn cadw siaradwyr Cymraeg newydd. Hir parhaed hyn, a gobeithio y gallwn ni ddenu, annog a chynorthwyo llawer iawn mwy i gorlan y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion. Estynnwn ein llongyfarchiadau mwyaf gwresog at Melisa. Hefyd, dymunwn yn dda i bawb sy'n astudio ar raglen Cymraeg Gwaith y Cyngor, ac yn enwedig i'r rheiny sydd wedi'u hysbrydoli i ddechrau astudio eleni, wrth inni gydweithio gyda'n gilydd er mwyn taro'r targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050".

2. Diwrnod Hawliau'r Gymraeg : 7 Rhagfyr 2022

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn awyddus bod Awdurdodau Lleol yn cymryd rhan yn y diwrnod hwn. Mae'n gyfle i hyrwyddo bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r cyhoedd.

Pwrpas:

Mae gan siaradwyr Cymraeg hawl i gael gwasanaethau Cymraeg heb orfod gofyn amdanynt. Safonau'r Gymraeg sy'n creu'r hawliau hyn. Ar Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydweithio gyda sefydliadau sy'n gweithredu'r safonau i dynnu sylw at gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, ac i wella'r gwasanaethau y

maent yn eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan weithwyr mewn sefydliadau cyhoeddus hefyd yr hawl i gael defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Mae'r diwrnod yn cael ei gynnal ar 7 Rhagfyr oherwydd mai dyma'r dyddiad y pasiwyd Mesur y Gymraeg gan y Senedd. Mae'r Mesur yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg, ac yn datgan na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Arweiniodd y Mesur at sefydlu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg, drwy osod Safonau'r Gymraeg ar sefydliadau cyhoeddus.

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn paratoi datganiad i'r wasg, yn paratoi fideo er mwyn hyrwyddo bod gwasanaethau Cymraeg ar gael gan hybu eu defnydd, ac yn defnyddio y cyfryngau cymdeithasol i'w hyrwyddo.

ARGYMHELLIAD:
Cyflwynir yr adroddiad er gwybodaeth at sylw aelodau Pwyllgor Iaith.

Enw Cyswllt:	Carys Lewis Morgan
Swydd:	Swyddog Polisi Iaith
Dyddiad yr Adroddiad:	5 Rhagfyr 2022